Partneriaeth S4C gyda Chonsortiwm BAFTA Albert

Mae'n holl bwysig fod cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'r ffordd y mae rhaglenni S4C yn cael eu cynhyrchu. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau ein bod yn cadw ein heffaith amgylcheddol mor isel â phosibl. Ein nod yw gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu ac annog y cynhyrchwyr rydym yn gweithio â nhw i roi blaenoriaeth i'r amgylchedd tra'n cynhyrchu rhaglenni.

Ym mis Medi 2021 bydd S4C yn cychwyn ei phartneriaeth gyda chonsortiwm BAFTA albert, sef cymdeithas o rai o gwmnïau cynhyrchu a darlledwyr mwyaf y DU er mwyn cyflawni hyn, ac ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses gynhyrchu drwy:

• Wneud cwblhau cyfrifiannell ôl troed carbon albert yn orfodol ar yr holl gynnwys a gomisiynir gennym

• Mynd ati i annog cynhyrchiadau i gwblhau proses ardystio albert ar gyfer eu cynhyrchiadau.

Bydd 'lansiad meddal' fis Medi yn galluogi cwmniau i ddod yn gyfarwydd â'r gofynion cyn iddynt ddod orfodol o 1 Ionawr 2022 (heblaw ei bod yn gyfres dan 15 munud o hyd a/neu bod cyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000).